CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.

COFNODION

CYFARFOD MISOL 29ain O DACHWEDD 2007 AM 7.30PM NEUADD Y DREF LLANBEDR P.S.

Cyn dechrau'r cyfarfod, cafwyd anerchiad gan Mr Bill Irving Ysgrifennydd *Siopmobility Symudol* a Mr Dave Buzzone Cyngor Sir Ceredigion (CSC). Nod y gwasanaeth *Siopmobility* yw darparu'r defnydd o gadeiriau olwyn trydan a llaw, a sgwteri, i drigolion ac ymwelwyr â Cheredigion sy'n profi anhawster symud o gwmpas oherwydd anabledd parhaol neu dros-dro. Nid oes rhaid bod wedi cofrestru fel person anabl na bod â bathodyn anabledd i fenthyg y sgwteri a'r cadeiriau olwyn.

Yn ei gyflwyniad, soniodd Mr Irving am ddileu'r gwasanaeth symudol yn Llanbedr PS, Aberaeron ac Aberteifi ar ddechrau'r flwyddyn oherwydd toriadau cyllid gan CSC. Bu yna ddefnydd sylweddol ar y gwasanaeth ar ôl ei sefydlu ym 2001 ond dirywio a wnaeth, yn y blynyddoedd olaf. Rhwng Ionawr a Hydref 2006 bu gan yr uned symudol 12 o ddefnyddwyr yn Llanbedr PS, 18 yn Aberteifi a 53 yn Aberaeron. Gan fod y defnydd yn isel, (un rheswm efallai, gan fod y galw dros-dro), nid oedd y gwasanaeth yn talu ffordd. Roedd ariannu'r fan yn y dair tref, un diwrnod yr wythnos yn costio £10,000 y flwyddyn.

Pwrpas yr anerchiad oedd i ystyried y posibilrwydd o ail-sefydlu gwasanaeth *Siopmobility Symudol* yn y dref. Byddai rhaid yn gyntaf, darganfod lle addas ar gyfer storio'r cerbydau. Awgrymwyd y Swyddfa'r Cyngor Sir fel lleoliad posibl. Byddai angen digon o le i barcio a gwefru sgwter. Penderfynwyd i wneud ymholiadau pellach.

Mae gwelliannau i balmant a chwrbyn wedi cael ei ostwng yn golygu y byddai'r cynllun yn fwy ymarferol nag o'r blaen.

Gorffennodd Mr Irving ei anerchiad drwy sôn y gellid cynnal gwasanaeth parhaol am 5 neu 6 diwrnod yr wythnos yn Llanbedr PS. Roedd grantiau cludiannol ar gael; roeddent yn cysylltu â ChSC i gael cyngor a chefnogaeth. Byddai'r costiau cynnal yn isel. Penderfynwyd i gynnwys y *Siambr Fasnach* yn y drafodaeth.

Cafodd taflenni yn ymwneud â *Siopmobility Symudol* eu dosbarthu yn ystod y cyfarfod ac y maent ar gael yn Llyfrgell y Dref.

1. CROESO'R CADEIRYDD

Yn absenoldeb y Maer C.Thomas, Cadeirydd y noson oedd y Dirprwy-Faer Selwyn Walters. Estynwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol.

YN BRESENNOL

Cyng: Dirprwy-Faer Selwyn Walters, Cecilia Barton, Andrew Carter, Elsie Dafis Hazel Davies, Margaret Davies-Evans, Greg Evans, Robert (Hag) Harris, Lynda Mason George**,** Robert Phillips.

Mr Bill Irving & Mr Dave Buzzone (CSC) Siopmobility Symudol

Y Blismones Jo Grey.

2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng. Maer Christopher Thomas, Kistiah Ramaya a Derek Wilson gan eu bod yn mynychu'r Achlysur Flynyddol Rhyngwladol y Rotariaid. Derbyniwyd ymddiheuriadau hefyd oddi wrth y Cyng. John Davies, Margaret Davies-Evans a Dorothy Williams.

3. DATGELU BUDDIANT PERSONOL

Datgelodd y Cyng. A.Carter diddordeb yn ystod y drafodaeth yn ymwneud â chais y Seiri Ryddion am gymhorthdal i wneud gwelliannau i'r adeilad Neuadd Lleng Prydeinig Llanbedr PS, ers talwm. Ymadawodd â'r ystafell. (12.1)

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

4.1 Adroddodd y Blismones Jo Grey ar y materion canlynol:

- Bu lladrad yn lleol;
- Bu nifer o arestiadau'n ymwneud â chyffuriau
- Mae Tîm Gwarchod Cymdogaeth yn gweithredu'n lleol a dechreuodd yr Ymgyrch Aeafol.

4.2 **Adroddwyd fod faniau'n cael eu parcio ar balmantau ac nid yw'r goleuadau traffig** sydd wedi eu lleoli'n Hen Feddau'n gweithio'n llawn. Hefyd yn Heol y Bont, adroddodd y Cyng. A. Carter fod y goleuadau traffig presennol wedi eu trefnu mewn ffordd sy'n creu anawsterau pan geisiau cerbydau mawr fynd heibio. Penderfynwyd i gyfeirio'r Mater Rheoli Trafnidiaeth hwn at sylw'r Cyngor Sir Ceredigion (CSC).

4.3 **Dywedodd y Cyng. Hazel Davies fod yr hysbysfwrdd gwydr,** ger Llyfrgell y Dref yn cael ei fandaleiddio'n bur aml. Penderfynwyd i ofyn i'r heddlu lleol i archwilio'r cyffiniau'n rheolaidd mewn cais i ddal y troseddwyr. Penderfynwyd i ofyn i'r Cyng. Derek Wilson i atgyweirio'r hysbysfwrdd.

4.4 **Derbyniwyd llythyr oddi wrth Mr W.Evans, Pentre Rhys, Llanwnnen**, yn. mynegi pryder yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn hwyr yn y nos ar strydoedd Llanbedr Pont Steffan. Yn ei lythyr, cyfeiriodd at ddigwyddiadau y bu'n dyst iddynt, pan yn teithio drwy'r dref yn hwyr yn y nos. Apeliodd am gymorth y Cyngor Tref i geiso gwella'r sefyllfa. Yn yr ymateb i Mr Evans, penderfynwyd i gyfleu, er i aelodau gydymdeimlo'n llwyr â'i bryderon, anodd yw datrys y broblem. Cytunwyd i anfon copi o'r llythyr at sylw'r heddlu'n

Llambed ac i sôn wrth Mr Evans am y *Gwaharddiad Alcohol* y tu allan i dafarnau, a ddisgwylir, a bod gan y trwyddedwyr tafarnau ran i chawarae'n sefyllfa.

5. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 25ain HYDREF

Penderfynwyd: cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd at y 25ain o Hydref. Fe'u harwyddwyd gan y cadeirydd.

6. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

6.1 Datblygiadau parthed y fainc: byddai'n cael ei lleoli tu allan i'r fynwent ar gyrion y dref, ar yr A475 Heol Llanwnnen. Casglwyd o'r stordy. Bydd y Cyng. Rob Phillips a'r Cynghorydd Sirol Ifor Williams yn cydosod y fainc cyn bo hir.

6.2 Hyfforddiant Archwilio Llefydd Chwarae CSC 21&22 /11/2007 adborth Bu'r Maer yn mynychu'r cwrs a gynhaliwyd ym Mhemorfa ar yr 21ain a'r 22ain o Dachwedd. Disgwylir adborth yn ystod y cyfarfod nesaf.

6.3 Arolwg Maes Chwarae Parc-yr-Orsedd 23/11/2007: Cyfarfu'r Maer Chris. Thomas, y Cyng. D.Williams a'r Clerc â Mr Andy Challon Wilson, *PlayWales* ar fore'r 23ain o Dachwedd ym Mharc-yr-Orsedd. Trefnwyd y cyfarfod yn unol â dymuniad y cynghorwyr am adroddiad llafar yn ogystal ag adroddiad ysgrifenedig sydd i ddilyn. Pwysleisiodd yr arolygydd y materion canlynol:

6.3.1 Mae angen torri'r cagnhennau coed sy'n rhwystr ger yr ardal chwarae;

6.3.2 Mae angen ail-osod y rhwyd sy'n gorchuddio'r boncyffion bach, mewn mannau, ble mae'r plant yn chwarae;

6.3.3 Mae angen adnewyddu'r asglodion pren o dan y siglen;

6.3.4 Dylsai'r meinciau gael eu glanhau â brws weir;

6.3.5 Gellir ail-ystyried y mat diogelwch sydd o dan y ceffylau pren;

6.3.6 Mae carffosiaeth o'r Bryn yn gorlifo o'r twll archwilio a leolir ym Mharc-yr-Orsedd. Penderfynwyd hysbysu'r Brifysgol;

6.3.7 Cynigwyd gosod mynediad newydd i'r parc. Byddai defnyddwyr y parc yn medru dod mewn i'r parc o Heol y Gogledd heb ddinistrio'r 2 ffens sy'n rhedeg yn baralel i Heol y Gogledd. Eiddo'r CSC yw'r ffens allanol a'r cyngor tref sy'n berchen ar y ffens oddi fewn. Byddai'r glwyd diogelwch yn-cau-ar-ran-ei-hun yn cael ei leoli hanner ffordd ar hyd y ffens. Penderfynwyd i gysylltu â ChSC er mwyn dechrau ar y trefniadau. Dalier i ddisgwyl 2 amcanbris ar gyfer trwsio'r ffens; a

6.3.8 Mae rhai defnyddwyr y siglen, yn dringo i'r man uchaf o dan y to a petai damwain yn digwydd, gallai'r Cyngor Tref fod yn gyfrifol. Dylai aelodau foniteirddio'r parc yn reolaidd ac i gofnodi'r nifer o weithiau y mae hyn yn digwydd. Efallai y byddai arwydd yn rhybuddio na chaniateir dringo fod o gymorth. Y farn oedd- os oedd person yn ddigon ystwyth i ddringo i ben uchaf to'r siglen byddai'n ddigon ystwyth i gymryd y cwymp i'r asglodion, yn ddiogel.

Adroddodd y Cyng. L.Mason-George fod rheiliau ger Parc-yr-Orsedd angen eu hadnewyddu. Penderfynwyd i nodi'r gwybodaeth yma ar gyfer y dyfodol.

6.4 Partneriaeth Pobl Ifainc- cyfarfodydd o'r 20fed/27ain o Dachwedd:Cynhaliwyd gyfarfod rhwng cynrychiolaeth o'r Cyngor Tref megis y Maer Chris Thomas, Dirprwy-Faer Selwyn Walters, Cyng. L. Mason-George, E. Dafis , H.Harris ac aelodau'r CSC megis Mr Euros Healy a Mr Carl Williams ar yr 20fed o Dachwedd. Cytunwyd i anfon llythyr o gefnogaeth ar gyfer gwasanaethau ar gyfer yr ieuenctid yn y dref. Pwysleisir yr angen enfawr am yr adnoddau yma'n Llambed. Dylai'r llythyr hyrwyddo CSC yn eu cais am gymhorthdal.

Ceisiodd cyfarfod 27ain Tachwedd, a drefnwyd gan y Cyngor Tref, rhwng Cynghorwyr y Dref a disgyblion Ysgol Uwchradd Llanbedr PS, enwi'r ystod o gyfleusterau angenrheidiol yn y Ganolfan Ieuenctid. Derbyniwyd ymateb positif oddi wrth y disgyblion.

Penderfynwyd i sefydlu Pwyllgor Llywio ar gyfer yr Ieuenctid, i gynnwys cynghorwyr a gwirfoddolwyr. Roedd y Cyngor Tref o'r farn y dylid hwy fod yn sbardun i ddechrau'r trefniadau. Gresynwyd y ffaith bod y Clwb Ieuenctid, a arferai gyfarfod yn y Neuadd Fictoria, wedi gorffen. Gobeithir y bydd yr Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol CSC yn darparu un gweithiwr am 3 noswaith yr wythnos. Byddai'r Maer yn cysyllltu â Mr Darren Phillips CSC i wneud trefniadau pellach.

6.5 *Cymuned a Rennir*: Dogfen Ymgynghorol; sylwadau i'w cyflwyno erbyn y 3ydd Rhagfyr. (Cynulliad Cenedlaethol): meithrin cydberthnasau a siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau tref a chymuned: nodwyd er gwybodaeth.

6.6 Astudiaeth Datblygu Economaidd ac Adfywio ar gyfer Llanbedr PS: *Ymgynghoriaeth Hyder* cyfarfod o'r 16eg o Dachwedd adborth: penderfynwyd i lunio ymateb i'r Strategaeth Adfywio a Datblygiad Economaidd Llanbedr PS ac i gyfarfod ym mis Rhagfyr er mwyn ymgymryd â'r dasg. Rhaid i sylwadau gael eu cyflwyno erbyn y 31ain Rhagfyr.

6.7 Cynllun Busnes: diddordeb mewn datblygu adeilad yr hen ysgol gynradd Dywedwyd fod cwmni preifat sef A.Waterman, wedi dangos diddordeb mewn datblygu'r adeilad yr hen ysgol gynradd at ddibenion y gymuned. Anfonwyd y Cynllun Busnes at sylw'r Cyngor Tref i'w ystyried. Nid yw'r Cyngor Tref yn medru cynnig sylwadau, cyn derbyn y cais cynllunio.

6.8 Urdd Gobaith Cymru:cyfarfod 22/11/07 Capel Shiloh Llambed: adborth Mynychodd y Dirprwy-Faer y Cyng. Selwyn Walters y cyfarfod yma yng Nghapel Shiloh. Ni fydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal yn Llambed gan ni awgrymwyd lleoliad addas ar ei chyfer. £8,000 yw nod Llanbedr PS ac mi fyddai unrhyw gyfraniad oddi wrth y Cyngor Tref yn cael ei dynnu allan o'r swm yma. Nid oes cadeirydd wedi ei benodi ar hyn o bryd; awgrymwyd y dylai'r Maer presennol gymryd y rôl o Is-Gadeirydd.

6.10 Tir ym Maesyderi: cysylltwyd â'r CSC i ofyn tybed fyddai'n bosibl i'r Cyngor Tref weinyddu'r cae. Derbyniwyd fap oddi wrth yr Awdurdod yma'n gofyn i'r Cyngor Tref i ddangos ffiniau'r darn o dir. Mae'r dasg yma wedi ei chyflawni a dywedwyd wrth y CSC y gobeithia'r Cyngor Tref ddefnyddio'r darn yma o dir fel amwynder ar gyfer trigolion Llanbedr PS.

7. GOHEBIAETH

Cofnod 54/2007

7.1 **Cynllun Gwithredu Lleihau Risg 2008-09; Cynllun Gwella 2007-08 Gwasanaeth Tân ac Achub, Canolbarth a Gorllewin Cymru**: nodwyd er gwybodaeth.

7.2 **Cau heol dros dro: Stryd Fawr, Llanbedr PS- 13/12/2007 (4-9pm): Digwyddiad Nadolig ar gyfer y Gymuned: ar gau rhwng 4-9pm 13/12/2007**, i lwyfannu digwyddiad blynyddol y Siambr Fasnach. Estynwyd croeso i'r Maer, Faeres, Cynghorwyr y Dref a Chlerc y Dref i fynychu'r seremoni agoriadol am 4:00pm ger Neuadd y Dref.

7.3 **Bywyd Da –** Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Ddrafft ar gyfer Ceredigion 2008-11 CSC: nodwyd er gwybodaeth.

7.4 **Siopmobility Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol:** dangosodd y Cyng. L.Mason-George yr awydd i fynychu'r cyfarfod yma.

7.5 **Un Llais Cymru:** Cofnodion y Cyfarfod blynyddol Cyffredinol: er gwybodaeth.

7.6 **Panel Dyfarnu Cymru:** Adroddiad Blynyddol 2006-07: er gwybodaeth

7.7 **Mabwysiadu Stryd yr Orsaf rhwng hen safle'r farchnad anifeiliaid a phont yr afon, Llanbedr PS:** derbyniwyd llythyr oddi wrth y CSC yn cyfleu y mabwysiadwyd y ffordd yma yn briffordd a fydd yn cael ei chynnal a'i chadw gan arian cyhoeddus dan Adran 228 Deddf y Priffyrdd 1980 ar Hydref 13eg 2007.

7.8 **Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion Adreoddiad Blynyddol 2007:** er gwybodaeth

7.9 **E-bost oddi wrth Mr Patrick Cockburn**: yn dymuno trafod y testun yn ymwneud â'r maes sglefrio arfaethedig yn Llanbedr PS gydag aelodau'r Cyngor Tref. Penderfynwyd i ofyn iddo i gyflwyno'r cais yn ysgrifenedig. Yn y dyfodol, bydd y Cyngor Tref yn ceisio cynnal fforwm cyn y cyfarfod er mwyn caniatau aelodau'r cyhoedd i drafod materion o ddiddordeb.

7.10 **Gohebiaeth eraill**: er gwybodaeth yn unig.

8. MENTER LLAMBED

Cofnod 55/2007

8.1. Anerchiad parthed Neuadd y Dref Y Cyng. G.Evans, Cadeirydd Menter Llambed

Cyhoeddodd y Cyng Evans, oherwydd prinder ariannol, roedd cyfrifoldeb am Neuadd y Dref (NYD) wedi dychwelyd ar ysgwyddau'r CSC, perchenogion y neuadd. Byddant yn penderfynu ar ei ffawd, y mis nesaf. Cafodd *Menter* gynnig les NYD ar yr amod y medrent sicrhau grant ar gyfer cynllun adfywio'r NYD. Gostyngwyd y grant o 100% i 75% gan adael prinder o oddeutu £60,000. Roedd y cyngor a dderbyniwyd oddi wrth yr Ymgynghorydd Cynllun Busnes NYD yn cyfleu na fedrai'r grŵp datblygu ariannu 25% gweddill y gost, oherwydd prinder meddiannau.

Mynegodd Cadeirydd y Grŵp siom am ddiffyg parhad *Menter* i'r broses o adfywio'r NYD. Beth bynnag, teimlodd y gallai eu hamcanion hwy gael eu cyflawni gan bartion eraill. Roedd Ymddiriedolaeth Highmead wedi dangos diddordeb mewn prynu ymddiriedolaeth rhyddfreiniol NYD. Mae'n cynnwys un o'r opsiynau gan gynnwys awerthiant ar y farchnad agored sy'n cael ystyriaeth gan y Cyngor Sir. Roedd y Cyng. Tref & Sirol Hag Harris o'r farn y gallai cynllun ymddiriedolaeth lwyddo. Penderfynwyd i anfon llythyr o gefnogaeth at y Cyngor Sir ynglŷn â chais Ymddiriedolaeth Highmead i brynu NYD. Roedd yr aelodau o'r farn bod cadwriaeth adeilad urddasol, hanesyddol a rhestredig o'r pwysigrwydd mwyaf, tra y dylid gwneud pob ymdrech i'w ail-sefydlu i'w bwrpas lawn; byddai'n drychineb i'r gymuned ei

golli. Dylai cyfamod fod ynghlwm wrth unrhyw werthiant neu bridles yn caniatau parhâd cyfarfodydd cyngor tref, seremoni urddo'r maer a defnydd cymuned. Penderfynwyd i ddiolch i Menter Llambed am eu cyfraniad i ddyfodol NYD.

8.2 Derbyn gweddill yr adroddiad misol oddi wrth y Cyng. G. Evans

8.2.1 Cynllun Cadw'n Heini: Pendefynwyd y byddai'r gweddill yr arian a dderbyniwyd oddi wrth Cyngor Chwaraeon Cymru (Cymhothdal gwreiddiol o £25,000) ar ôl prynu'r offer Cadw'n Heini, Parc-yr-Orsedd, yn cael ei wario ar Flociau Craig a Gorwynebau Diogelwch.(heb TAW)

8.2.2 Mae Menter Llambed yn gwbl gefnogol i'r Ganolfan Ieuenctid Galw Mewn yn Llambed. Gan fod ymrwymiadau NYD wedi gorffen, gellir buddsoddi amser i ddatblygu'r cynllun yma.

8.2.3 Roedd angen llythyr o gefnogaeth ar gyfer y Cynllun Tref Drawsnewidiol. Penderfynwyd i'w cefnogi yn eu cais am gymhorthdal.

8.2.4 Mynedfeydd i Lambed: Canlyniadau'r Ymgynghoriad: penderfynwyd i adael y mater yma ar y bwrdd, tan y cyfarfod nesaf

9. CEISIADAU CYNLLUNIO

Cofnod 56/2007

9.1 Adroddwyd fod y ceisiadau cynllunio canlynol wed eu caniatau gan y Cyngor Sir:

Rhif y Cais	Ymgeisydd:	Lleoliad:	Manylion y cais:
A071051CD	CSC 26 Stryd y Bont ABERYSTWYTH	Ysgol Gyfun Llanbedr PS Teras Peterwell LLANBEDR PS	Newidiadau i'r to
A070609CD	CSC 26 Stryd y Bont ABERYSTWYTH	Ysgol Gyfun Llanbedr PS Teras Peterwell LLANBEDR PS	Codi bloc dysgu dau lawr

9.2 Derbyniwyd y ceisiadau canlynol

Rhif y Cais	Ymgeisydd a Lleoliad:	Manylion y cais	Manylion y cais:
A071178	Mr Gareth Jones Arwel Felinfach LLANBEDR PS Yr Hen Ladd-dy Heol Llanfair LLANBEDR PS	Newid defnydd argyfer trwsio ceir a phrofion MOT	Roedd aelodau'n cefnogi'r cais yma gan y byddai'n cyflogi pobl yn yr ardal.
A071166	Mr Dafydd Evans Gwinnant Cribyn Llanbedr P.S. ++++++++++ Cefn 10 Stryd y Coleg	Codi fflat newydd	Dim gwrthwynebiad

	Llanbedr P.S.		

10. CYLLID
Cofnod 57/207
10.1

	Gwein.	**Cynnal.**	**Ad.137**	**TAW**
	£	£	£	£
GWARIANT				
Cyflog y clerc i mis	499.62			
Treth ac YC	129.14			
Golau a Gwres	20.00			
Eisteddfod Genedlaethol 2008			100.00	
Plethdorch – Sul y Cofio			16.50	
Argraffu taflenni – Sul y Cofio	25.00			
Neuadd Fictoria x4 Young at Heart	40.00			
Neuadd y Dref cyfarfodydd C.T.X3	60.00			
CCC 1 mis MLL TELECOM		1,633.34		285.83
CYFANSWM	773.76	1,633.34	116.50	285.83
CYFANSWM Y GWARIANT	**£2,809.43**			

10.2 Derbyniwyd llythyr yn diolch y Cyngor Tref am y rhodd o £100 tuag at yr elusen Macmillan Cymorth Cancr.

11. IS-BWYLLGORAU
Cofnod 58/2007

11.1 LLWYBRAU CERDDED

Cynllun Llwybrau Cymunedol 2008-09 CSC: rhaid cyflwyno'r cais i GSC erbyn y 17eg o Rhagfyr. Cytunodd y Cyng. Carter i drosglwyddo'r gwyboaeth angenrheidiol, erbyn y dyddiad yma.

Derbyniwyd anfoneb oddi wrth Gymdeithas y Cerddwyr yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol 2006-07. Mae'r anfoneb wedi ei gyfeirio at y Cyngor Sir.

11.2 GOLEUADAU STRYD

11.2.1 Tu allan i Groesawdi, Heol y Bryn: mae'r golau yma'n gweithio'n llawn, erbyn hyn.

11.3 CAMERAU TELEDU CYLCH-CAEËDIG (CTCC)

Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth y Cyngor Sir ar y 29ain o Dachwedd yn datgan nad yw'r system uwchraddol wedi ei gwblhau, cyn belled. Mae'r gwaith yn rhan o gytundeb eang sy'n cynnwys uwchraddio'r system Aberystwyth, trosglwyddo'r lluniau o Aberteifi i Aberystwyth ac i gyflwyno system CTCC symudol mewn trefi eraill yng Ngheredigion. Ar hyn o bryd, caiff lluniau Llanbedr PS eu trosglwyddo i Aberystwyth gan ddefnyddio rhwydwaith y Cyngor Sir ond nid yw'r namau a adroddwyd yn gynharach ar y camerau,

wedi eu hatgyweirio. Sefydlwyd y system recordio yn Llambed a gellir derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r deunydd a recordiwyd yn syth o Aberystwyth.

Gan fod ragor o waith i'w gyflawni ar y camerau yn Llanbed a lleoedd eraill, cynghorwyd i beidio â dileu'r cytundeb MLL Teleecom, gan yn wyneb anawsterau. efallai y bydd yn ofynnol i'r Cyngor Sir i ofyn am gymorth oddi wrthynt.

Awgrymodd y Cyng. Phillips y dylai llythyr gael ei drosglwyddo i'r Cyngor Sir yn mynegi gwerthfawrogiad i'r cynnydd yn natblygiad y CTCC yn Llanbedr PS. Mae'r Cyngor Tref yn edrych ymlaen yn eiddgar i system uwchraddol ac yn gweithio'n llawn, am ffracsiwn y gost, yn y dyfodol agos hy £12,000 yn hytrach nag £19,600.

11.4 PALMANTAU

Mae gwelliannau'n cael eu cario allan ar hyn o bryd ar balmantau Heol y Bont gan CSC. Bydd gwaith i wella cyflwr Sgwâr Harford, Heol y Porthmyn a'r Stryd Fawr yn dilyn.

12. U.F.A.
Cofnod 59/2007

12.1 Cyflwynodd y Cyng. Carter gais llafar ar ran y Seiri Ryddion. Apeliwyd am gymorth y Cyngor Tref i gefngi eu cais am gymorthdal i wella cyflwr yr hen Neuadd Lleng Prydeinig yn Llanbedr PS, i gynnal eu cyfarfodydd ac i'w ddefnyddio er lles y gymuned. Dywedwyd y dylai'r cais gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig, cyn y gall penderfyniad gael ei wneud.

12.2 Penderfynwyd i wahodd cynrychiolaeth o GSC i gyfarfod o'r Cyngor Tref, er mwyn trafod materion arbennig. Cytunodd y Cyng. Harris i siarad ag aelodau perthnasol CSC, gan fod cais ysgrifenedig wedi ei gyflwyno'n barod.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Nos Iau 27 Rhagfyr 2007 am 7:30pm.

(Cadeirydd)

(Dyddiad)